# Cynllun y Cyngor

2023-28



Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

# Croeso



# Cynnwys


| | Rhif tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Datganiad Lles | 5 |
| Ein Hamcanion Lles | 6 |
| Gosod Blaenoriaethau | 7 |
| Ein Blaenoriaethau 2023/28 | 8 - 9 |
| Dilyn y Cynllun | 10 |
| Blaenoriaeth - Tlodi | 12 - 13 |
| Blaenoriaeth - Tai Fforddiadwy a Hygyrch | 14 - 15 |
| Blaenoriaeth - Cymdeithas Werdd a’r Amgylchedd | 16 - 19 |
| Blaenoriaeth - Economi | 20 - 22 |
| Blaenoriaeth - Lles Personol a Chymunedol | 23 - 24 |
| Blaenoriaeth - Addysg a Sgiliau | 25 - 26 |
| Blaenoriaeth - Cyngor a Reolir yn Dda | 27 - 29 |
| Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu | 30 |




# Cyflwyniad





**Mae fersiwn diweddaraf Cynllun y Cyngor yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a'r pethau mawr rydym yn bwriadu eu cyflawni. Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymfalchïo mewn bod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda ar ran ei gymunedau lleol, ac un sy'n cael ei arwain a'i gymell gan gyfres o werthoedd cymdeithasol cadarn.**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn Gyngor blaengar sy'n cael ei lywodraethu'n dda. Rydym yn parhau i berfformio'n dda fel darparwr uniongyrchol a chomisiynydd gwasanaethau cyhoeddus ac fel partneriaid i eraill.

Yn y Cynllun hwn, mae pwyslais mawr ar adfer o'r pandemig a chefnogi'r rhai mwyaf diamddiffyn. Rydym hefyd yn gwneud ymrwymiadau mawr i fod yn Gyngor Gwyrdd. Mae bywyd yn ystod y pandemig wedi dysgu ni y dylem werthfawrogi'r amgylchedd naturiol ac y gall addasiadau yn ein ffyrdd o fyw leihau ein hôl troed carbon ein hunain.

Mae'r Cynllun yn nodi blaenoriaethau lefel uchel y Cyngor ar gyfer 2023/28. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u dewis ar sail y meysydd lle gall y Cyngor ychwanegu'r gwerth mwyaf a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol go iawn ynddynt:

- Tlodi
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch
- Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd
- Economi
- Lles Personol a Chymunedol
- Addysg a Sgiliau
- Cyngor a Reolir yn Dda

Mae gan bob blaenoriaeth sawl is-flaenoriaeth a chamau gweithredu lle rydym yn ceisio dylanwadu eleni ac yn y tymor hirach.



**Neal Cockerton**
Prif Weithredwr



**Ian Roberts**
Arweinydd y Cyngor



# Datganiad Lles


**Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth sy'n torri tir newydd, a'i nod yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn y tymor hir.

Ategir y Ddeddf gan saith nod 'lles':

- Cymru Lewyrchus
- Cymru Gydnerth
- Cymru Iachach
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu
- Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang

Mae'n ofynnol bod cyrff y sector cyhoeddus a phartneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i gyflawni'r nodau hyn a gwella lles yng Nghymru. Mae'r saith nod lles a'r pum ffordd o weithio yn gosod diben cyffredinol ar gyfer cyrff cyhoeddus. Maent hefyd yn ceisio sicrhau y gwneir penderfyniadau gwell drwy:




Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r saith nod lles drwy ddilyn y ddolen hon.

# Ein Hamcanion Lles

**Er mwyn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi nodi saith Amcan Lles ar gyfer 2023/28 fel y manylir isod:**

Mae'r Amcanion Lles hyn wedi cael eu dewis fel y meysydd lle mae'r Cyngor yn credu y gall wneud gwahaniaeth cadarnhaol a'r cyfraniad mwyaf tuag at y nodau lles.

Mae pob Amcan Lles yn cyfrannu at bob un, neu sawl un o'r Nodau Lles a byddant yn parhau i gael eu hadolygu. Maent yn adlewyrchu'r 'Effeithiau' yr ydym yn bwriadu eu cyflawni drwy'r camau gweithredu a'r gweithgarwch o fewn pob maes blaenoriaeth.

Mae asesiad o gynnydd yn erbyn ein Hamcanion Lles yn cael ei lunio fel rhan o'r perfformiad cyffredinol ar gyfer pob blaenoriaeth. Bydd cynnydd yn cael ei nodi yn Adroddiadau Perfformiad Cynllun y Cyngor, yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a bydd yn cael ei nodi o fewn ein Hunanasesiad yn y dyfodol.

Yn ogystal, byddwn yn ystyried y pum dull gweithio, a elwir yn egwyddorion datblygu cynaliadwy, a byddwn yn adrodd arnynt.

- Diogelu ein cymunedau a phobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol a bod yn gydnerth
- Tai yn Sir y Fflint yn bodloni anghenion ein preswylwyr ac yn cefnogi cymunedau mwy diogel
- Lleihau a gwella effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hôl-troed carbon eu hunain
- Cysylltu cymunedau a galluogi adferiad a thwf economaidd cynaliadwy
- Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal ag y gallent
- Galluogi a Chefnogi Cymunedau sy'n Dysgu
- Cyngor cyfrifol a dyfeisgar y gellir ymddiried ynddo, sy'n gweithredu mor effeithlon â phosib

# Gosod Blaenoriaethau

Y Cyngor a'i bartneriaid sector cyhoeddus lleol sy'n gosod y blaenoriaethau ar gyfer Sir y Fflint fel sir. Rydym yn cydweithio fel Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) ac yn cyfuno ein hadnoddau er budd Sir y Fflint.

Wrth weithio yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor yn gweithio ar y cyd â phartneriaid sector cyhoeddus lleol fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth wraidd hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o weithio gyda'n gilydd, gosod blaenoriaethau ar y cyd a chyfuno adnoddau er budd Sir y Fflint, gyda'r nod cyffredinol o wella lles yn lleol.

Mae gan y Cyngor hefyd nifer penodol o flaenoriaethau iddo ef ei hun fel sefydliad partner unigol. Mae gosod blaenoriaethau'n helpu i ganolbwyntio ein sylw a'n hadnoddau ar y pethau pwysicaf – adleisir y blaenoriaethau hyn yng Nghynlluniau Busnes y Cyngor.

Wrth osod Blaenoriaethau'r Cyngor, mae'n rhaid i ni ystyried nifer o ffactorau o bolisi Llywodraeth Cymru, i ddisgwyliadau ein partneriaid allweddol, i'n cyfrifoldebau cyfreithiol, i farn pobl leol.

Yna, byddwn yn gosod ein targedau, ac yn beirniadu ein perfformiad yn erbyn Blaenoriaethau'r Cyngor gan ddefnyddio ystod eang o wybodaeth feintiol (perfformiad a feirniedir yn ôl niferoedd) ac ansoddol (perfformiad a feirniedir yn ôl adborth, canlyniadau ymgynghoriad ac ati). Mae rhai o'n hamcanion yn ymwneud â chreu cynlluniau er mwyn cyflawni amcanion tymor hirach. Bydd y rhain yn cael eu datblygu o fewn y flwyddyn, ac yn cael eu hystyried fel rhan o raglenni gwaith i'r dyfodol ein Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, ac yn arwain ynddynt eu hunain at ymrwymiadau a chamau gweithredu tymor hirach.

I'n helpu i wybod pa mor dda rydym yn ei wneud o ran cwrdd â disgwyliadau ein blaenoriaethau, mae gennym gyfres o 'gamau gweithredu a mesurau' sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gennym. Mae'r mesuryddion perfformiad hyn wedi'u nodi ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn a manylir arnynt yn y ddogfen ategol 'Cynllun y Cyngor Rhan 2: Sut ydym ni'n Mesur Cyflawniad?

Byddwn yn rhoi gwybod i chi pa mor dda rydym wedi perfformio yn erbyn ein deilliannau mewn dwy ffordd: adroddiadau rheolaidd i Gabinet a Phwyllgorau Craffu'r Cyngor; a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a ddylai gael ei gyhoeddi yn yr hydref.

# Ein Blaenoriaethau 2023/28

| Blaenoriaeth / Amcan Lles | Is-Flaenoriaeth |
|---|---|
| **Tlodi**<br>Diogelu ein cymunedau a phobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol a bod yn gydnerth | • Tlodi Incwm<br>• Tlodi Plant<br>• Tlodi Bwyd<br>• Tlodi Tanwydd<br>• Tlodi Digidol |
| **Tai Fforddiadwy a Hygyrch**<br>Tai yn Sir y Fflint yn bodloni anghenion ein preswylwyr ac yn cefnogi cymunedau mwy diogel | • Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd<br>• Anghenion Tai a Dewisiadau Tai<br>• Tai Cymdeithasol<br>• Sector Rhentu Preifat |
| **Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd**<br>Lleihau a gwella effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hôl-troed carbon eu hunain | • Lliniaru Ffosffadau<br>• Cyngor Di-Garbon Net<br>• Newid Hinsawdd ac Ymaddasu<br>• Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd<br>• Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol<br>• Strategaeth Fflyd<br>• Amgylchedd Gwyrdd<br>• Coedwig Sir y Fflint<br>• Mynediad i Fannau Gwyrdd<br>• Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy<br>• Economi Gylchol |

# Ein Blaenoriaethau 2023/28

| Blaenoriaeth / Amcan Lles | Is-Flaenoriaeth |
|---|---|
| **Economi**<br>Cysylltu cymunedau a galluogi adferiad a thwf economaidd cynaliadwy | • Adfywio Gwledig<br>• Adfywio Canol Trefi<br>• Busnes<br>• Cysylltedd Trafnidiaeth<br>• Isadeiledd Digidol<br>• Targedau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)<br>• Lleihau Diweithdra |
| **Lles Personol a Chymunedol**<br>Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal ag y gallent | • Byw'n Annibynnol<br>• Diogelu<br>• Darpariaeth Uniongyrchol i Gefnogi Pobl yn Agosach i'w Cartrefi<br>• Strategaeth Dementia Lleol<br>• Amgylchedd Lleol Glân, Diogel gyda Chysylltiadau Da |
| **Addysg a Sgiliau**<br>Galluogi a Chefnogi Cymunedau sy'n Dysgu | • Ymgysylltiad a Chyflawniad Addysgol<br>• Cyfleoedd Dysgu Digidol<br>• Amgylcheddau Dysgu<br>• Rhwydweithiau Cymuned sy'n Dysgu<br>• Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (CSCA)<br>• Lles |
| **Cyngor a Reolir yn Dda**<br>Cyngor cyfrifol a dyfeisgar y gellir ymddiried ynddo, sy'n gweithredu mor effeithlon â phosib | • Pobl<br>• Cyngor Gwrth-Hiliol a Gwrth-Wahaniaethu<br>• Gwytnwch Ariannol<br>• Asedau Sir y Fflint<br>• Digidol<br>• Partneriaethau |

# Dilyn y Cynllun

Mae'r dudalen flaenorol yn nodi blaenoriaethau lefel uchel y Cyngor a'r is-flaenoriaethau a gytunwyd arnynt o fewn pob blaenoriaeth ar gyfer 2023/28.

Caiff pob blaenoriaeth ei hamlygu mewn gwahanol liw. Er enghraifft, mae **Addysg a Sgiliau** yn **las** ac mae'r **Economi** yn **borffor.** Dylai'r codio lliw yma ei gwneud hi'n haws i'r darllenydd ddilyn y blaenoriaethau wrth fynd drwy'r ddogfen ac hefyd wrth groesgyfeirio at Gynllun y Cyngor Rhan 2: Sut ydym ni'n Mesur Cyflawniad?

Mae'r Cyngor wedi dewis sawl maes (is-flaenoriaethau) fydd yn cael sylw arbennig yn ystod oes y ddogfen hon. Mae adran benodol ar gyfer pob un o'r is-flaenoriaethau hyn yn ddiweddarach yn y ddogfen.

Er enghraifft, ar dudalen 12-13 byddwch yn gweld y thema ar gyfer Tlodi. Diffinnir amcan lles ar gyfer Tlodi fel 'Diogelu ein cymunedau a phobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol ac i fod yn gadarn'. Mae'r camau gweithredu sy'n cyfrannu at gyflawni hyn yn cael eu cynnwys yn y pum is-flaenoriaeth a ganlyn: -

- Tlodi Incwm
- Tlodi Plant
- Tlodi Bwyd
- Tlodi Tanwydd
- Tlodi Digidol

## Beth sydd wedi newid ar gyfer 2023/28?

Mae Cynllun y Cyngor yn seiliedig ar saith blaenoriaeth lefel uchel yn hytrach na chwech (mae'r flaenoriaeth 'Cyngor a Reolir yn Dda' wedi cael ei hychwanegu). Mae un ar ddeg o is-flaenoriaethau ychwanegol newydd hefyd wedi cael eu nodi ar gyfer 2023/28.

Sef:

- Lliniaru Ffosffadau
- Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd
- Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol
- Coedwig Sir y Fflint
- Adfywio Gwledig
- Pobl
- Cyngor Gwrth-Hiliol a Gwrth-Wahaniaethu
- Gwytnwch Ariannol
- Asedau Sir y Fflint
- Digidol
- Partneriaethau

Bydd y camau gweithredu sy'n eistedd o dan y Blaenoriaethau / Is-Flaenoriaethau yn cael eu hadolygu a'u hadnewyddu bob blwyddyn drwy gydol oes Cynllun y Cyngor.

# Ein Blaenoriaethau



Ein Blaenoriaethau

# Blaenoriaeth: Tlodi

**Diogelu ein cymunedau a phobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol a bod yn gydnerth**

## Tlodi Incwm

**Pobl ar incwm isel nad oes ganddyn nhw ddigon o arian ar gyfer costau byw dydd i ddydd**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Ostwng y risg ac effaith tlodi ymysg aelwydydd Sir y Fflint
- Cefnogi preswylwyr i gael mynediad at wasanaethau cefnogi

### Materion Cenedlaethol

- Diwygiad Lles 2016
- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol 2021
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Tlodi Plant

**Plant sy'n methu cael gafael ar fwyd, dillad, lloches nac addysg digonol er mwyn byw bywyd iach ac egnïol**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Sicrhau bod y rhai sy'n gymwys yn cael mynediad at gynlluniau cymorth
- Cynyddu mynediad at, a sgiliau o ran gwasanaethau digidol
- Sicrhau mynediad parhaus i amgylcheddau chwarae amrywiol a chyfoethog

### Materion Cenedlaethol

- Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru
- Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru
- Cynllun Gweithredu Pwyslais ar Incwm Llywodraeth Cymru

## Tlodi Bwyd

**Pobl sy'n methu cael gafael ar fwyd sy'n bodloni eu hanghenion a'u gofynion maeth dyddiol**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Fynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol ar gyfer tlodi bwyd ac ansicrwydd bwyd
- Sicrhau ein bod yn cyrraedd cymunedau gwledig a threfol

### Materion Cenedlaethol

- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol 2021
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015







# Blaenoriaeth: Tlodi

**Diogelu ein cymunedau a phobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol a bod yn gydnerth**

## Tlodi Tanwydd

**Aelwydydd sy'n gwario mwy na 10% o'u hincwm (ar ôl costau tai) ar ynni**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Lleihau effaith y cynnydd mewn costau tanwydd
- Cefnogi'r rhaglen genedlaethol ar gyfer ymestyn y rhwydwaith nwy drwy brif gyflenwad
- Lleihau effaith tlodi tanwydd ar yr aelwydydd mwyaf diamddiffyn

### Materion Cenedlaethol

- Cynllun Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru
- Cynllun Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru

## Tlodi Digidol

**Methu rhyngweithio'n llawn mewn byd digidol pan fo unigolyn angen gwneud hynny, yn lle mae o angen gwneud hynny a sut mae o'n dymuno gwneud hynny**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Ddiwallu disgwyliadau cwsmeriaid i allu cael mynediad at wasanaethau ar-lein
- Moderneiddio yn ymarferol trwy newid y ffordd rydym yn dylunio ac yn darparu gwasanaethau
- Sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn ein cymunedau yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn bersonol neu dros y ffôn
- Cefnogi pobl sydd â diffyg sgiliau a hyder mewn cymdeithas fodern

### Materion Cenedlaethol

- Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi buddsoddiad mewn gwasanaethau digidol er mwyn cefnogi moderneiddio wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus



Ein Blaenoriaethau

# Blaenoriaeth: Tai Fforddiadwy a Hygyrch

**Tai yn Sir y Fflint yn bodloni anghenion ein preswylwyr ac yn cefnogi cymunedau mwy diogel**

## Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd

**Cynnig cymorth i bobl i gadw eu tai, byw yn dda a sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin, byr ac na fydd digwydd eto**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Atal digartrefedd yn ei holl ffurfiau trwy ymyrraeth gynnar a chymorth tai
- Ymateb i'r anghenion tai sy'n newid gan drigolion Sir y Fflint yn dilyn pandemig iechyd Covid

**Materion Cenedlaethol**

- Trawsnewid gwasanaethau digartrefedd
- Darparu Polisi Tai yn Gyntaf Llywodraeth Cymru
- Ymateb i argymhellion y Grŵp Gweithredu Digartrefedd

## Tai Cymdeithasol

**Gweithio gyda phartneriaid tai i ddatblygu a buddsoddi mewn tai fforddiadwy a thai cymdeithasol - gyda dulliau adeiladu modern, gwelliannau i ansawdd tai'r Cyngor, ac ymrwymiad i fod yn garbon niwtral**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Adeiladu'r nifer mwyaf posib o dai Cyngor fel rhan o'r datrysiad cyflenwad tai
- Adeiladu'r nifer mwyaf posib o dai Cyngor i gefnogi a chyfrannu at gyflenwad tai cyffredinol Sir y Fflint
- Diwallu targed Llywodraeth Cymru bod yr holl dai cymdeithasol wedi'u codi i Safon Ansawdd Tai Cymru

**Materion Cenedlaethol**

- Gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)
- Adeiladu cartrefi cymdeithasol gwell yng Nghymru, mwy ohonynt ac yn fwy cyflym (Ail-ddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru, Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol, Chwefror 2020; Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016; Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi (Cymru)) 2022)
- Er mwyn i Gymru ddod yn genedl carbon isel drwy gael targed Llywodraeth Cymru i ostwng allyriadau carbon yng Nghymru o 80% erbyn 2050 (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016)



# Blaenoriaeth: Tai Fforddiadwy a Hygyrch

**Tai yn Sir y Fflint yn bodloni anghenion ein preswylwyr ac yn cefnogi cymunedau mwy diogel**

## Anghenion Tai a Dewisiadau Tai

**Helpu pobl i archwilio eu dewisiadau tai er mwyn gallu cael gafael ar y tai priodol i fodloni eu hanghenion**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Ddiwallu anghenion tai a llety amrywiol y boblogaeth leol
- Canfod anghenion cymorth pobl a'u helpu i gynnal llety a lleihau'r risg o ddigartrefedd trwy ystod o wasanaethau cymorth

**Materion Cenedlaethol**

- Dod â throi allan i ddigartrefedd i ben
- Strategaethau Pobl Hŷn

## Sector Rhentu Preifat

**Cefnogi'r sector preifat i godi safonau o ran rheoli a chyflwr tai a hyrwyddo tenantiaethau cynaliadwy yn ein cymunedau**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Sicrhau bod landlordiaid a thenantiaid yn cael eu cefnogi i gynnal cartrefi o ansawdd a thenantiaethau a reolir yn dda o fewn y sector preifat lleol
- Cynyddu cyfleoedd o fewn y sector rhentu preifat i aelwydydd incwm isel fyw yn llwyddiannus
- Lliniaru'r pwysau ar wasanaethau digartrefedd trwy fynediad gwell i gartrefi a rentir yn breifat
- Codi safonau byw ar gyfer tenantiaid sy'n byw mewn tai amlfeddiannaeth

**Materion Cenedlaethol**

- Rhentu Doeth Cymru
- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Safonau Tai Cymru



Ein Blaenoriaethau

Sero Net

# Blaenoriaeth: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd

**Lleihau effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hôl troed carbon eu hunain**

## Lliniaru Ffosffadau

**Darparu dewisiadau hyfyw a chyflawnadwy i liniaru effaith ffosffadau o ddatblygiad newydd ar afonydd sy'n cael eu gwarchod mewn Ardal Gadwraeth Arbennig**

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:

- Gymeradwyo'r ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad tai newydd
- Gallu darparu'r Cynllun Datblygu Lleol
- Cynnal Statws Ardal Twf Cenedlaethol Sir y Fflint

### Materion Cenedlaethol

- Canllawiau ar ffosffadau ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol gan Gyfoeth Naturiol Cymru
- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017

## Cyngor Di-Garbon Net

**Bod yn Gyngor di garbon net erbyn 2030 a chefnogi camau gweithredu datgarboneiddio ehangach ledled y Sir, gan wneud hyn yn ganolog i'r broses adfer ar ôl Covid-19**

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:

- Gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru fod yn ddi-garbon net erbyn 2030, yn ogystal â lleihau newid hinsawdd cenedlaethol a rhyngwladol
- Sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddefnyddio camau datgarboneiddio i hwyluso adferiad economaidd Covid 19
- Cefnogi'r cyhoedd, busnesau, diwydiant, cymunedau ac ati, i gymryd camau unigol a chymryd cyfrifoldeb ar gyfer newid hinsawdd a lliniaru

### Materion Cenedlaethol

- Darparu Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2 Llywodraeth Cymru a'r Map Llwybr Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus

## Newid Hinsawdd ac Ymaddasu

**Bod yn fwy cadarn am y newidiadau sydd wedi digwydd oherwydd newid hinsawdd a pharatoi ar gyfer y newidiadau a ragwelir yn y dyfodol**

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:

- Gyflawni uchelgeisiau'r Strategaeth Newid Hinsawdd mewn 5 maes blaenoriaeth allweddol drwy raglen o weithgareddau sy'n cael eu cydlynu, eu rheoli a'u monitro gan y Bwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd

### Materion Cenedlaethol

- Targed Llywodraeth Cymru i fod yn garbon niwtral erbyn 2030

Ein Blaenoriaethau

Sero Net

# Blaenoriaeth: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd

**Lleihau effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hôl troed carbon eu hunain**

## Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd

**Adnewyddu strategaeth rheoli risg llifogydd y Cyngor i gyd-fynd â'r strategaeth genedlaethol a nodi'r cymunedau sy'n wynebu mwy o risg Sir y Fflint a'r camau gweithredu angenrheidiol i liniaru'r risg hon**

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:

- Ddarparu dull cydlynol a strategol o ran rheoli risg llifogydd yn Sir y Fflint
- Newid i ymagwedd ragweithiol o ran rheoli risg llifogydd
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau staffio ac adnoddau cyllidol

### Materion Cenedlaethol

- Cyflawni rôl Sir y Fflint fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol
- Cyd-fynd â'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Genedlaethol

## Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol

**Adolygu Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd y Cyngor yng ngoleuni'r Llythyr Gweinidogol o fis Tachwedd 2021, i baratoi ar gyfer gweithredu'r canllawiau TAN15 Datblygu a Pherygl Llifogydd diwygiedig a fydd yn dod i rym ym mis Mehefin 2023**

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:

- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Llythyr Gweinidogol ynglŷn â TAN 15
- Cyfyngu effaith y canllawiau newydd ar safleoedd allweddol y Cynllun Datblygu Lleol a safleoedd strategol eraill
- Mynd i'r afael ag unrhyw broblemau mewn perthynas â'r safleoedd hyn cyn i'r polisi newydd ddod i rym

### Materion Cenedlaethol

- Canllawiau TAN 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd

## Strategaeth Fflyd

**Lleihau effaith amgylcheddol ein fflyd**

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:

- Barhau i leihau ein hallyriadau carbon i fodloni targedau Llywodraeth Cymru a chwarae ein rhan i helpu fynd i'r afael â chanlyniadau newid hinsawdd

### Materion Cenedlaethol

- Datganiad argyfwng hinsawdd Llywodraeth Cymru yn Ebrill 2019 gyda dyheadau o gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn mynnu lleihad o 80% mewn allyriadau carbon – erbyn 2050

Sero Net

# Blaenoriaeth: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd

**Lleihau effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hôl troed carbon eu hunain**

## Amgylchedd Gwyrdd

**Gwella a datblygu bioamrywiaeth a choed i gyflawni nifer o fanteision i bobl, bywyd gwyllt a'r amgylchedd**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Gydbwyso'r angen am ddatblygu cynaliadwy ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol

**Materion Cenedlaethol**

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Cynllun Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru

## Mynediad i Fannau Gwyrdd

**Hyrwyddo, rheoli a diogelu ein mannau gwyrdd er mwyn cynnig amryfal fuddion i'r amgylchedd ac i'n trigolion a'n hymwelwyr**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Deall lle bo angen mynediad ychwanegol a darparu cyfleoedd lle bo hynny'n bosib
- Parhau gyda'n polisi o gynyddu cyfleoedd lle gellir gwella mynediad ar draws y rhwydwaith
- Amlygu a hyrwyddo mynediad at yr amgylchedd gwyrdd er budd gwella iechyd meddwl a chorfforol

**Materion Cenedlaethol**

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

## Coedwig Sir y Fflint

**Datblygu cynllun i sefydlu Coedwig Sir y Fflint a fydd yn nodi'r asedau tir sydd ar gael, y gofynion o ran y gyllideb ac amserlen realistig ar gyfer darparu**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Wella a datblygu coed i gyflawni nifer o fanteision i bobl, bywyd gwyllt a'r amgylchedd

**Materion Cenedlaethol**

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Cynllun Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru



Sero Net

# Blaenoriaeth: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd

**Lleihau effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hôl troed carbon eu hunain**

## Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy

**Creu cyfleoedd i gynyddu lefelau cerdded a beicio (teithio llesol) a defnyddio dewisiadau cludiant cyhoeddus cynaliadwy, gan alluogi cynnal siwrneiau cludiant aml-fodel i gael mynediad at gyrchfannau allweddol**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Alluogi pobl i gael mynediad at wasanaethau allweddol a chysylltu cymunedau ledled Sir y Fflint
- Lleihau tagfeydd ac oedi ar ein rhwydwaith priffyrdd
- Manteisio i'r eithaf ar arian sydd ar gael drwy brosiectau blaengaredd
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddefnyddio cerbydau trydan
- **Materion Cenedlaethol**
- Masnachfraint Rheilffyrdd y Gororau
- Darparu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, hyrwyddo ffyrdd teithio amgen
- Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan i Gymru
- Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2 Llywodraeth Cymru a'r Map Llwybr Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus

## Economi Gylchol

**Cefnogi a hyrwyddo strategaeth Llywodraeth Cymru i greu economi gylchol gynaliadwy yn Sir y Fflint**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Weithredu Economi Gylchol
- Bodloni targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru
- Hyrwyddo atgyweirio ac ailddefnyddio pan fo modd
- Cyflwyno datrysiadau rheoli gwastraff cynaliadwy
- Hyrwyddo ffyrdd rhanbarthol o weithio
- Lleihau'r defnydd o becynnau un tro

**Materion Cenedlaethol**

- Adolygu targedau ailgylchu Statudol
- Ailddosbarthu mathau o sbwriel e.e. pren wedi'i dynnu o'r gwaith cyfrifo ailgylchu
- Pwysau a deddfwriaeth amgylcheddol
- Pwysau ariannol ar gefnogaeth grantiau Llywodraeth Cymru
- Strategaeth Tu Hwnt i Ailgylchu



# Blaenoriaeth: Economi

**Cysylltu cymunedau a galluogi adferiad a thwf economaidd cynaliadwy**

## Adfywio Gwledig

**Sicrhau bod yr ymyriadau i'r Economi yn ystyried ac yn diwallu anghenion unigolion a busnesau gwledig**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Sicrhau bod polisïau a rhaglenni yn hygyrch i fusnesau a chymunedau gwledig, ac nad ydynt yn eu gwthio i'r cyrion

### Materion Cenedlaethol

- Cynllun datblygu gwledig a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r UE sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2023

## Adfywio Canol Trefi

**Adfywio ac ailfuddsoddi yng nghanol ein trefi**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Ddiogelu hyfywedd economaidd canol ein trefi

### Materion Cenedlaethol

- Dull gweithredu Llywodraeth Cymru i Adfywio

## Busnes

**Galluogi parhad busnes ac annog buddsoddiad priodol**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Barhau i ddatblygu'r economi leol a rhanbarthol
- Gweithio ar y cyd i gyflawni blaenoriaethau allweddol ar gyfer prosiectau isadeiledd mawr a fydd yn cefnogi prosiectau twf economaidd
- galw ac annog buddsoddiad

### Materion Cenedlaethol

- Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru
- Cynllun Adfer Llywodraeth Cymru






# Blaenoriaeth: Economi

**Cysylltu cymunedau a galluogi adferiad a thwf economaidd cynaliadwy**

## Cysylltedd Trafnidiaeth

**Datblygu a hyrwyddo cysylltiad cludiant effeithiol wrth gefnogi adfer a thwf economaidd**

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:

- Integreiddio bob ffordd o gludiant yn llwyddiannus a datblygu galw unigol bob un a hyrwyddo gwasanaeth cludiant cyhoeddus ecogyfeillgar, cynaliadwy a fforddiadwy gyda chysylltiadau gyda Sir y Fflint a'r rhanbarth ehangach
- Darparu cysylltiadau gwerthfawr i wasanaethau cludiant i breswylwyr yn ardaloedd gwledig y Sir fel rhan o Rwydwaith Graidd Sir y Fflint lle nad oes gwasanaethau masnachol ar gael ar hyn o bryd, ac felly hwyluso mynediad i gyfleusterau iechyd, addysg a chyflogaeth
- Hyrwyddo cludiant aml fodd a gostwng dibynadwyaeth ar gerbydau modur
- Cynnwys datrysiadau cludiant lleol yn y cais Twf Economaidd Rhanbarthol

### Materion Cenedlaethol

- Ffurfio Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth
- Adolygu Gwasanaeth Bysiau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru
- Cyflwyno opsiynau teithio cynaliadwy ac integredig

## Isadeiledd Digidol

**Sicrhau bod y rhwydweithiau digidol yn hwyluso ac yn cefnogi adfer a thwf**

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:

- Sicrhau bod anghenion preswylwyr a busnesau Sir y Fflint wedi'u hintegreiddio'n llwyr i becynnau buddsoddi'r dyfodol
- Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol a darparwyr telathrebu i sicrhau bod anghenion cymunedau gwledig yn cael eu hystyried

### Materion Cenedlaethol

- Nid yw cysylltedd digidol wedi cael ei ddatganoli felly Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y mater er bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n ychwanegol. Mae Gogledd Cymru ym mhell tu ôl i weddill y DU o ran cysylltedd. Mae'r pandemig wedi amlygu pwysigrwydd isadeiledd cysylltedd da ac mae Gogledd Cymru yn gobeithio cyrraedd a rhagori ar y meincnod cenedlaethol a sicrhau bod safleoedd busnes strategol yn mwynhau mynediad at dechnoleg sydd ar flaen y gad






# Blaenoriaeth: Economi

**Cysylltu cymunedau a galluogi adferiad a thwf economaidd cynaliadwy**

## Targedau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)

**Cyflawni amcanion polisi'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer twf, diogelu a gwelliant**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Fabwysiadu cynllun datblygu cadarn sy'n cynnwys fframwaith o bolisïau a chynigion sy'n ceisio rheoleiddio a rheoli datblygu a defnydd tir a darparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a chlir ar geisiadau cynllunio unigol

**Materion Cenedlaethol**

- Cynllun Datblygu Lleol – Archwiliadau a phrofi cadernid

## Lleihau Diweithdra

**Gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi unigolion i gael gwaith**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Ddarparu cefnogaeth i gael gwaith a hyfforddiant

**Materion Cenedlaethol**

- Cymru'n Gweithio



Ein Blaenoriaethau

# Blaenoriaeth: Lles Personol a Chymunedol

**Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal ag y gallent**

## Byw'n Annibynnol

**Bydd pobl yn cael eu cefnogi i fyw mor annibynnol ag sy'n bosib drwy gynnig y math priodol o gymorth iddyn nhw, pan fyddan nhw ei angen**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Sicrhau bod gan bobl ddewis a rheolaeth dros y ffordd maen nhw'n cael eu cefnogaeth

### Materion Cenedlaethol

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i hyrwyddo lles a grymuso pobl i lywio eu datrysiadau eu hunain
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau er mwyn atal problemau cyson fel anghydraddoldeb iechyd, tlodi a newid hinsawdd

## Darpariaeth Uniongyrchol i helpu pobl yn agosach i'w cartrefi

**Y gwasanaethau rydym ni'n eu darparu er mwyn i bobl gael gafael ar y cymorth y maen nhw ei angen yn eu cymuned leol**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Gynyddu ein darpariaeth lleol i sicrhau bod unigolion yn gallu defnyddio gwasanaethau'n agos at eu cartrefi

### Materion Cenedlaethol

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i roi anghenion yr unigolyn wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais iddyn nhw, a rheoli canlyniadau a fydd yn eu helpu i gyflawni lles

## Diogelu

**Parhau i sefydlu gweithdrefnau diogelu, er mwyn i'n gweithwyr ddeall sut y gallan nhw helpu diogelu pobl yn y gymuned**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Hyrwyddo dealltwriaeth ar draws y Cyngor fod diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb

### Materion Cenedlaethol

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar bob gweithiwr awdurdod lleol, aelodau etholedig a phartneriaid perthnasol i adrodd am unrhyw ddigwyddiadau o gam-drin neu niwed gwirioneddol neu amheuon ohonynt



Ein Blaenoriaethau

# Blaenoriaeth: Lles Personol a Chymunedol

**Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal ag y gallent**

## Strategaeth Dementia Lleol

**Parhau i wella bywydau pobl sy'n byw gyda dementia yn Sir y Fflint**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia

**Materion Cenedlaethol**

- Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia i Gymru

## Amgylchedd lleol glân, diogel gyda chysylltiadau da

**Cymunedau cryf lle bo pobl yn teimlo'n ddiogel ac mewn cysylltiad**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Gynnal rhwydwaith priffyrdd ddiogel a hygyrch
- Darparu darpariaeth parcio o ansawdd ar gyfer canol trefi a sicrhau argaeledd drwy ddarparu rhai aros byr / aros hir priodol
- Diogelu'r amgylchedd rhag gweithgareddau gwaredu gwastraff anghyfreithlon
- Cynnal safon gwasanaeth yn y Portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant
- Diogelu Iechyd y Cyhoedd i breswylwyr yn Sir y Fflint

**Materion Cenedlaethol**

- Rhaglen Ariannu Hyblyg Cymru
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau er mwyn atal problemau cyson fel anghydraddoldeb iechyd, tlodi a newid hinsawdd
- Newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol ymgymryd â mwy o weithgareddau gorfodi
- Pwysau ariannol a chefnogaeth grantiau Llywodraeth Cymru
- Darparu strategaeth genedlaethol a gwelliannau i Ansawdd Amgylcheddol Lleol

# Blaenoriaeth: Addysg a Sgiliau

**Galluogi a Chefnogi Cymunedau sy'n Dysgu**

## Ymgysylltiad a Chyflawniad Addysgol

**Darparu cyfleoedd dysgu amrywiol i gefnogi cyflawniad addysgol mewn ysgolion a chymunedau**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Sicrhau bod pobl ifanc yn cyflawni eu potensial
- Cynyddu cadernid plant a phobl ifanc mewn ysgolion a'u cymunedau i aros yn ddiogel ac yn iach
- Cefnogi dysgwyr rhwng 3 a 18 oed i anelu at lefelau uchel o gyrhaeddiad a chyflawniad addysgol
- Bodloni dyletswyddau statudol dan newid polisi addysg cenedlaethol i gwricwlwm cenedlaethol diwygiedig
- Cefnogi dysgwyr sy'n rhan o'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn risg o fynd iddo i gael addysg a chynyddu presenoldeb

**Materion Cenedlaethol**

- Diwygio Cwricwlwm

## Cyfleoedd Dysgu Digidol

**Cefnogi ymgysylltiad a chyflawniad addysgol drwy wneud defnydd rhagweithiol o gyfryngau digidol hygyrch**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Gefnogi ysgolion a dysgwyr i ymgorffori'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd Cymru 2022
- Ymgorffori gofynion Fframwaith Digidol 2030 yn narpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ledled y sir

**Materion Cenedlaethol**

- Strategaeth Ddigidol i Gymru
- Cwricwlwm Cymru 2022
- Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar gyfer ysgolion
- Fframwaith Digidol 2030 ar gyfer dysgu ôl-16

## Amgylcheddau Dysgu

**Creu amgylcheddau dysgu uchelgeisiol a hyblyg**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Barhau i ddarparu strategaeth hirdymor ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn adeiladau ysgolion ac wrth ddarparu dysgwyr diamddiffyn i wella ansawdd adeiladau ysgolion wrth hyrwyddo cynaliadwyedd a gostwng y gwaith cynnal a chadw sydd yn aros i gael ei wneud

**Materion Cenedlaethol**

- Nawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain ganrif

# Blaenoriaeth: Addysg a Sgiliau

**Galluogi a Chefnogi Cymunedau sy'n Dysgu**

## Rhwydweithiau Cymuned sy'n Dysgu

**Cefnogi ein cymunedau sy'n dysgu i ymgysylltu a chyflawni drwy weithio mewn partneriaeth eang yn cael eu hategu gan arferion diogelwch cyffredin**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Ddarparu Gwasanaeth Archifau cost effeithiol a chadarn
- Sicrhau bod arian cynyddol yn cael ei ddefnyddio i ddarparu cyrsiau sy'n helpu oedolion sy'n dysgu i ddatblygu sgiliau a gwella eu hiechyd a'u lles
- Ymgorffori'r Bartneriaeth Dysgu Oedolion rhwng Sir y Fflint a Wrecsam

### Materion Cenedlaethol

- Polisi Dysgu Oedolion yng Nghymru
- Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi a'i rhaglen lles a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), yn enwedig cyfarfod anghenion dysgwyr hŷn

## Lles

**Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i ddarparu cyfleoedd i blant, pobl ifanc a'r gweithlu addysg i ymgysylltu mewn gweithgareddau sy'n cefnogi eu hiechyd a lles emosiynol**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau oherwydd:**

- Mae cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn ein hysgolion yn flaenoriaeth genedlaethol

### Materion Cenedlaethol

- Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwreiddio Dull Ysgol Gyfan tuag at Iechyd a Lles Emosiynol

## Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (CSCA)

**Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Weithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) nesaf a fydd yn cael ei gyflawni dros y 10 mlynedd nesaf (2022-2032)

### Materion Cenedlaethol

- Cymraeg 2050: ein strategaeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg
- Darpariaethau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn yr ysgol



# Blaenoriaeth: Cyngor a Reolir yn Dda

**Cyngor cyfrifol a dyfeisgar y gellir ymddiried ynddo, sy'n gweithredu mor effeithlon â phosib**

## Pobl

**Recriwtio, cadw, datblygu a chefnogi lles ein gweithwyr er mwyn galluogi darpariaeth gwasanaeth o ansawdd uchel**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Allu recriwtio'r bobl gywir i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid
- Cadw ein gweithwyr os ydym am gynnal darpariaeth gwasanaeth ar gyfer trigolion Sir y Fflint
- Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi yn eu rôl ac yn cael eu cydnabod a'u gwobrwyo'n deg am eu cyfraniad
- Rhoi gwybodaeth ac adnoddau i weithwyr ar bob lefel er mwyn iddynt allu perfformio ar eu gorau Cefnogi rheolwyr ac arweinwyr i greu ac ysbrydoli timau rhagorol, gofalu am eu pobl, a chreu amgylcheddau lle gall pobl o bob cefndir a gallu ffynnu ynddynt
- Parhau i ddatblygu pobl, gan gydnabod bod y ffordd y caiff pobl eu rheoli a'u hysgogi, ac argaeledd sgiliau ac arbenigedd, yn allweddol o ran galluogi'r Cyngor i gyflawni blaenoriaethau Cynllun y Cyngor. Mae gweithlu cynhyrchiol gyda chymhelliant o fudd i brofiad y bobl rydym ni yma ar eu cyfer, ein cwsmeriaid, preswylwyr a chymunedau

## Cyngor Gwrth-Hiliol a Gwrth-Wahaniaethu

**Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol Llywodraeth Cymru a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Gydymffurfio â dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn a amlygwyd yn ystod y pandemig i sicrhau canlyniadau cyfartal i bobl â nodweddion gwarchodedig

**Materion Cenedlaethol**

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnwys Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru



# Blaenoriaeth: Cyngor a Reolir yn Dda

**Cyngor cyfrifol a dyfeisgar y gellir ymddiried ynddo, sy'n gweithredu mor effeithlon â phosib**

## Gwytnwch Ariannol

**Sicrhau bod y Cyngor yn gynaliadwy dros y tymor canolig a'r tymor hir**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Sicrhau bod gennym ddigon o gyllid i ddarparu gwasanaethau, ac ein bod yn gallu lliniaru unrhyw risgiau a allai godi

**Materion Cenedlaethol**

- Arian cyhoeddus
- Dyfarniadau cyflog cenedlaethol

## Digidol

**Moderneiddio ein gwasanaethau fel eu bod yn cael eu dylunio ar sail anghenion y defnyddiwr ac yn syml, yn ddiogel ac yn gyfleus**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Cefnogi "Strategaeth Ddigidol i Gymru" Llywodraeth Cymru sy'n nodi ei gweledigaeth ar gyfer cynnal safonau gwasanaethau digidol cyson

**Materion Cenedlaethol**

- Strategaeth Ddigidol i Gymru
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Partneriaethau

**Gweithio ar y cyd â phartneriaid ar draws y sectorau preifat, cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol i gyflawni nodau a blaenoriaethau a rennir**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Cyflawni ein dyletswydd lles o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni gydweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus lleol eraill fel rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wella lles economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol lleol. Wrth wneud hyn, mae'n rhaid i ni gadw at yr egwyddorion datblygu cynaliadwy a sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth i effaith ein penderfyniadau yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

**Materion Cenedlaethol**

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Ein Blaenoriaethau

# Blaenoriaeth: Cyngor a Reolir yn Dda

**Cyngor cyfrifol a dyfeisgar y gellir ymddiried ynddo, sy'n gweithredu mor effeithlon â phosib**

## Asedau Sir y Fflint

**Bydd darparu'r ased cywir yn y lle cywir ar yr amser cywir yn sicrhau darpariaeth effeithiol ac effeithlon o ystod gynhwysfawr o wasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel**

**Mae'r rhain yn flaenoriaethau gan fod angen i ni:**

- Darparu cyd-destun clir i werthuso cynigion ar gyfer gwariant cyfalaf i sicrhau bod yr holl fuddsoddiad cyfalaf yn cael ei dargedu i ddarparu blaenoriaethau'r Cyngor fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor
- Herio ein hystâd bresennol yn feirniadol, parhau â'r rhaglen o resymoli asedau, gan sicrhau bod asedau sy'n cael eu cadw yn effeithiol, effeithlon a chynaliadwy i ddarparu gwasanaethau
- Gwneud y mwyaf o dderbyniadau cyfalaf, wrth gydbwyso'r angen i gadw tir ar gyfer ein dibenion dal a storio carbon ein hunain
- Nodi ac ystyried y dewisiadau sydd ar gael i ariannu gwariant cyfalaf sy'n lleihau'r goblygiadau refeniw parhaus sy'n deillio o wariant cyfalaf hanesyddol ac o unrhyw fuddsoddiadau newydd
- Defnyddio partneriaethau, cyhoeddus a phreifat, yn fwy effeithiol i gefnogi ein strategaeth gyffredinol
- Adeiladu ar drefniadau ar gyfer rheoli prosiectau cyfalaf gan gynnwys asesu canlyniadau a chyflawni gwerth am arian

**Materion Cenedlaethol**

- Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Sector Cyhoeddus Di-garbon Net erbyn 2030.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



# Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu

## Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu

Fel sefydliad cyhoeddus mae'r Cyngor yn cael ei archwilio'n rheolaidd i archwilio a herio ei berfformiad a'i effeithiolrwydd. Caiff y gwaith hwn ei gyflawni'n bennaf gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Cafodd y Cyngor Grynodeb Archwilio Blynyddol ffafriol gan **Archwilio Cymru** ym mis Ionawr 2022. Ar y cyfan, daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i gasgliad cadarnhaol. "Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol bod y Cyngor wedi bodloni ei ddyletswyddau dyledus yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22, fel a gafodd ei nodi gan orchymyn a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021." Ni wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

## Gweithgarwch Rheoleiddio / Archwilio Eraill

Mae'r Cyngor yn paratoi crynodeb blynyddol o'r holl weithgarwch archwilio a rheoleiddio allanol. Cafodd yr un diwethaf ei lunio ym mis Mawrth 2023 a chafodd ei ystyried gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor. Roedd yr adroddiad hwn yn darparu trosolwg o astudiaethau lleol a chenedlaethol ynghyd ag ymateb y Cyngor.

## Sut mae Ymgynghoriad yn hysbysu Cynllun y Cyngor

Nid oes un ymarfer ymgynghori dwys wedi bod am y Cynllun ei hun, fodd bynnag, mae aelodau etholedig, ar ran y cymunedau maent yn eu cynrychioli, wedi cyfrannu at osod blaenoriaethau'r Cyngor a thynnu ar eu rôl gynrychioliadol i brofi perthnasedd y Cynllun yn erbyn y farn gyhoeddus yn lleol. Cafodd hyn ei hwyluso drwy rannu fersiwn ddrafft y Cynllun gyda'r Aelodau etholedig, a drwy ei gyflwyno i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Yn ogystal â hyn, ymgynghorwyd ag Aelodau etholedig ar dargedau a cherrig milltir, i'w defnyddio i fesur cyflawniadau'r Cynllun, gan sicrhau bod digon o gyflymder ac uchelgais ynddo.

Mae'r Cyngor yn fodlon cael adborth am y cynllun, a'i ddiwygio unrhyw bryd.

## Sut ydym ni'n Mesur Cyflawniad?

Mae'r ddogfen Cynllun y Cyngor Rhan 2 yn ddogfen ategol i Gynllun y Cyngor ac yn darparu mwy o fanylion ynglŷn â'r mesurau a'r targedau rydym wedi'u gosod ar gyfer ein hunain i gyflawni'r camau gweithredu a nodir yng Nghynllun y Cyngor.





